



Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru  
33-35 Heol y Gadeirlan  
CAERDYDD  
CF11 9HB

Board of Community Health Councils in Wales  
33-35 Cathedral Road  
CARDIFF  
CF11 9HB

24 Tachwedd 2019

Annwyl *Dai*,

## **Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)**

Ysgrifennaf yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiadau gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad, ar y Bil uchod.

Hoffai'r Bwrdd a'r CICau ddiolch i chi am barhau i gefnogi'r angen am gorff llais y bobl annibynnol, a gwirioneddol gryfach, ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn cydnabod hefyd bod llawer o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan gynrychiolwyr CIC, a sefydliadau eraill, wedi cael ei ystyried a'i adlewyrchu yn y Bil a'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen.

Fel y nodwyd yn y dystiolaeth a ddarparwyd, mae'r CICau wedi croesawu'r nodau eang ar gyfer y corff newydd, a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Bil. Credwn fod cynnwys y Bil yn mynd peth ffordd i adlewyrchu'r hyn mae pobl yn dweud wrthym sy'n bwysig iddynt.

Roeddem yn falch o weld, er enghraifft, bod y cynigion yn bwriadu bydd y corff newydd yn:

- ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl mewn ffyrdd gwahanol
- adlewyrchu barnau a chynrychioli buddiannau pobl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, drwy gyflwyno sylwadau i gyrff iechyd a gofal (gan gynnwys ar newidiadau i wasanaethau)
- rhoi cymorth i bobl dan 18 sydd am wneud cwyn am y GIG
- bod yn gorff annibynnol, arunigol, tu allan i'r GIG, sy'n gallu cyflogi ei staff ei hun a recriwtio ei aelodau gwirfoddol ei hun.

Fodd bynnag, mae'r CICau o'r farn o hyd bod yn rhaid gwneud y cynigion ar gyfer sefydlu corff llais y bobl newydd yn gryfach, mewn rhai meysydd allweddol, fel bod y corff newydd yn cael ei gyfarparu â'r adnoddau cywir i wneud y gwaith ledled Cymru. Mae rhai o'r awgrymiadau hyn wedi'u cynnwys yn argymhellion y pwyllgor craffu.


Credwn felly y dylid diwygio'r cynigion, fel bod yr egwyddorion allweddol canlynol, sy'n llywodraethu cynllun a gweithrediad y corff llais y dinesydd newydd, wedi'u hymgorffori yn y gyfraith:

- Rhaid i gorff llais y dinesydd allu ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau wrth iddynt dderbyn gofal, drwy hawl mynediad i leoliadau iechyd a gofal.
- Dylai pobl allu gweld yn glir sut mae eu barnau a'u profiadau wedi goleuo a dylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed gan gyrff iechyd a gofal.
- Dylai bod dyletswydd ar gyrff iechyd a gofal i helpu a chynorthwyo corff llais y dinesydd i gyflawni ei nodau a'i swyddogaethau.

- Mae angen ffocws lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar y corff llais y dinesydd, wedi'i ategu gan fframwaith cryf o aelodau gwirfoddol.
- Dylai'r corff llais y dinesydd allu cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru.
- Mae angen yr offer a'r adnoddau i gyd ar gorff llais y dinesydd i wneud y gwaith.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth, a hyderwn y bydd y Bil nawr yn parhau drwodd i ail gam y broses.

Yr eiddoch yn gywir



**Swyddog Prif**  
**Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru**